



Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru

Future  
Generations  
Commissioner  
for Wales



Taith tuag at

# Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

**1: Datblygu sgiliau**, cynyddu cyfleoedd a pharchu ein statws fel cenedl ddwyieithog


**2: Cynorthwyo pobl i ymgysylltu â diwylliant yn eu gwaith bob dydd**, gan ddangos ein pobl broffesiynol ddiwylliannol ar eu gorau

**3: Defnyddio ymyriadau diwylliannol a ieithyddol** i fynd i'r afael â materion cymdeithasol ehangach

**4: Defnyddio diwylliant a'r Gymraeg** i sbarduno newid economaidd ac amgylcheddol

**5: Galluogi ein dinasyddion i gyrchu ac ymgysylltu** â'u diwylliant hwy eu hunain a diwylliannau eraill





Comisiynydd  
Cenedlaethau'r  
Dyfodol  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



**Taith tuag at**

# Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r  
Dyfodol, diffinir y nod hwn fel

*“cymdeithas sy'n hyrwyddo a gwarchod  
diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg  
ac sy'n annog pobl i gyfranogi  
yn y celfyddydau a chwaraeon a  
gweithgareddau hamdden.”*



## Diffinio'r nod

Mewn datganiad enwog dywedodd Mahatma Gandhi bod “diwylliant cenedl yn bodoli yng nghalonnau ac eneidiau ei phobl.”

Mae'r celfyddydau a diwylliant yn bwysig i'n holl fywydau. O fod yn aelod o'ch clwb chwaraeon lleol, i ymweld â'r theatr yn ystod y penwythnos, neu ganu mewn côr, mae'r celfyddydau a diwylliant yn gwneud ein bywyd yn werth ei fyw. Yng Nghymru, mae cysylltiad cryf rhwng diwylliant â'n treftadaeth a'r iaith Gymraeg; dyna sydd yn ein gwneud yn unigryw.

Yn ystod adegau o galedi, fodd bynnag, gellir camdehongli'r celfyddydau a diwylliant fel rhywbeth 'braf i'w gael' neu hyd yn oed fel moethusrwydd – pan fydd tystiolaeth yn dangos bod gwerthfawrogi'r celfyddydau a chreadigrwydd yn fanteisiol i'n llesiant economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu y bydd creadigrwydd ar ben y rhestr fel y sgil fwyaf dymunol ar gyfer y dyfodol. Mae angen mwy o gymorth traws sector i hybu cyfranogiad mewn, ac ymgysylltiad â diwylliant, yn cynnwys y celfyddydau, chwaraeon

a gweithgareddau oriau hamdden, yn ogystal â'r Gymraeg. Mae mynediad cyfartal i'r celfyddydau felly'n hollbwysig ar gyfer cyflawni'r nod hwn. Drwy hybu a gwarchod ein diwylliant a'n treftadaeth, rydyn ni'n dod i werthfawrogi eu rôl fel mecanweithiau ar gyfer newid cymdeithasol a'u potensial ar gyfer cyflawni ffyniant a chydnerthedd. Defnyddir diwylliant yn y ddogfen hon fel term sy'n cwmpasu archifau, celfyddydau, iaith, llyfrgelloedd, amgueddfeydd, chwarae a chwaraeon.



### Astudiaethau achos

Trwy'r ddogfen hon fe welch nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i'r pwnc. Os rydych yn gweld y symbol hwn cliciwch ar y ddolen i ddarllen y stori.



## Diffinio'r nod

Ble i ffocysu gweithredu wrth gyfrannu at y nod hwn

### **Hybu a gwarchod y Gymraeg.**

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 1: Cynorthwyo'r Gymraeg\).](#)

### **Hybu a gwarchod diwylliant a threftadaeth, gan werthfawrogi eu rôl fel mecanweithiau ar gyfer y dyfodol.**

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 3: Diwylliant fel mecanwaith ar gyfer newid\).](#)

### **Hybu a gwarchod diwylliant a threftadaeth, gan werthfawrogi eu potensial i gyflawni ffyniant a chydnerthedd.**

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 4: Diwylliant yn galluogi ffyniant a chydnerthedd\).](#)

### **Annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden, a gwerthfawrogi creadigrwydd.**

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 2: Gwerthfawrogi Creadigrwydd\).](#)

### **Annog sefydliadau i sicrhau bod y celfyddydau, chwaraeon a gweithgareddau oriau hamdden ar gael i bawb.**

[\(Gweler Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu, pwnc taith 5: Diwylliant ar gael i bawb\).](#)

## Gofynion statudol eraill sy'n berthnasol i'r nod hwn

Mae'n ofynnol i **gyrff cyhoeddus** lynu wrth y ddeddfwriaeth sy'n eu cwmpasu ac unrhyw gytundeb a wnaethpwyd rhyngddynt hwy a Llywodraeth Cymru neu eu Corff a Noddir.

Pasiwyd **Mesur y Gymraeg** gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2011, gan sefydlu Safonau'r Gymraeg. Gellir cael mwy o wybodaeth ar [wefan Comisiynydd y Gymraeg](#).


**Mae rhai o'r camau a'r gweithrediadau a awgrymir yn y ddogfen hon yn unol â Safonau'r Gymraeg**, felly dylai gyrff cyhoeddus yng Nghymru fod yn eu cyflawni eisoes - caiff y camau a'r gweithrediadau hyn eu hamlygu mewn oren gyda'r symbol 'St'. Mae rhai o'r camau, tra'n ymddangos fel rhai sy'n cyd-fynd ag ethos y safonau, yn gofyn i gyrff cyhoeddus fynd gam ymhellach gan wneud mentrau iaith a chyfleoedd yn rhan annatod o'u sefydliad.



## Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn **fwy tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd strategaeth genedlaethol a lleol yn bodoli.
- Pan fydd sefydliadau'n deall sut i fanteisio i'r eithaf ar asedau fel llyfrgelloedd, cyfleusterau chwarae, amgueddfeydd, orielau, cyfleusterau chwaraeon, sefydliadau celf ac adeiladau hanesyddol.
- Pan fydd yna ddealltwriaeth o botensial creadigrwydd (yn arbennig ymhlith pobl broffesiynol ddiwylliannol) i gynorthwyo newid mewn llunio polisi a'r gymdeithas ehangach.
- Pan fydd datblygiad busnes mewn trefi a dinasoedd yn cael ei adeiladu o gwmpas eu cynnig diwylliannol.
- Pan fydd partneriaethau arloesol ar gael sy'n caniatáu i ddiwylliant fod yn fwy gweladwy mewn bywyd bob dydd, er enghraifft cysylltu'r agendau diwylliannol ac iechyd.
- Pan fydd prosiectau o'r gorffennol yn dangos effaith hirdymor buddsoddi mewn diwylliant ac iaith.



## Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn **llai tebygol o ddigwydd...**

- Pan na fydd dealltwriaeth neu werthfawrogiad o gyfraniad diwylliant a'r Gymraeg i ganlyniadau ehangach a'r agenda atal.
- Pan fydd cymorth yn un tymor byr neu ariannu ar gyfer prosiectau yn cael ei gyfyngu gan amser, neu pan fydd prosiectau peilot yn lleihau'r cyfle ar gyfer effaith parhaol.
- Pan fydd tystiolaeth neu arwyddion yn gyfyng ar gyfer 'profi' gwerth ac effaith.
- Pan fydd gweithgareddau diwylliannol a ieithyddol yn digwydd mewn seilos.
- Pan na fydd darlun llawn o asedau diwylliannol lleol yn bodoli (yn cynnwys adeiladau, mannau agored a phobl) a phan na fydd cysylltiad rhyngddynt â darpariaeth amcanion ehangach.





Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales



**Taith tuag at**

**Gymru â diwylliant bywiog lle  
mae'r Gymraeg yn ffynnu**

## **2: Gwerthfawrogi Creadigrwydd**

Cynorthwyo pobl i ymgysylltu â diwylliant yn eu  
gwaith bob dydd, gan ddangos ein pobl broffesiynol  
ddiwylliannol ar eu gorau



## Diffinio'r mater

Gall bod yn greadigol yn y gweithle sbarduno cynhyrchiant yn ogystal â chynorthwyo llesiant meddyliol y rhai a gyflogir. Dywedir bod cwmnïau a gweithwyr sy'n ymgysylltu â chelfyddyd yn adrodd bod boddhad cwsmeriaid [40% yn uwch](#), [30% o gynnydd](#) mewn cynhyrchiant, a [36% o gynnydd](#) mewn perfformiad cyffredinol.

Mewn astudiaeth IBM ddiweddar datgelodd 1,500 o Brif Swyddogion Gweithredol mai creadigrwydd yw'r un sgil bwysicaf i arweinwyr. Mewn

astudiaeth ar barodrwydd gweithlu a gynhaliwyd gan y Bwrdd Cynadleddau, dywedodd 97% o gyflogwyr bod creadigrwydd o bwys cynyddol. Mae arfer creadigol yn annog arbrofi ac arloesi drwyddi draw mewn sefydliadau tra bo arweinwyr creadigol yn mentro'n fwy gofalus, yn darganfod syniadau newydd, ac yn dal i arloesi wrth arwain a chyfathrebu. Gallwn feithrin hyn drwy ein gweithlu diwylliannol yng Nghymru (p'un ai ydynt yn cael eu cyflogi gan y Sector Cyhoeddus ai peidio) a hynny er lles pawb.

### Synergedd a chysylltiad â theithiau eraill



#### Taith tuag at Ymgyfraniad

**Pwnc 3:** Effaith a chyfleu ymgyfraniad

## Gwneud **Newidiadau** Syml

### Partneriaethau

**Rydych yn datblygu** prosiectau newydd gyda'r rhai hynny â chysylltiadau â'r gymuned.

e.e. [Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili / Rhaglan Gyfuno](#)  
[Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen](#) a'r [prosiect Inside Out](#) - yn cynorthwyo oedolion i wireddu potensial drwy ddulliau diwylliannol drwy weithio'n gyntaf gyda grwpiau cymunedol i adnabod angen.

### Sgiliau

**Rydych yn annog timau staff** creadigol i gofrestru gyda Chaerdydd Greadigol, Gogledd Cymru Greadigol neu Dde Orllewin Greadigol.

<https://www.creativecardiff.org.uk/cy>

**Rydych yn mapio** sgiliau cyfredol creadigol a diwylliannol eich staff.

### Llesiant staff

**Anogwch eich staff** i gofrestru ar gyfer, a defnyddio eu cerdyn llyfrgell ddi-dâl gan ddarparu gwybodaeth hygyrch am yr hyn sydd gan y llyfrgell i'w gynnig.

e.e. [Llyfrgelloedd Sir Gaerfyrddin](#)

## Bod Yn Fwy Anturus

### Polisi

**Buddsoddwch yn** niwylliant eich sefydliad drwyddi draw nid yn unig yn y portffolio diwylliannol.

**Sicrhewch fod pob tîm diwylliannol** yn gweithio gyda'i gilydd (er enghraifft y celfyddydau, twristiaeth, chwaraeon, treftadaeth, llyfrgelloedd) i annog cydweithio yn hytrach na chystadleuaeth o fewn y meysydd hyn, ac wedyn ceisiwch ehangu cydweithio ar draws eich sefydliad.

**Gwerthfawrogwch bobl broffesiynol ddiwylliannol a phobl o'r trydydd sector** a'u talu'n ddigonol am eu hamser.

### Cadwch dystiolaeth o lesiant

a chanlyniadau eraill o raglenni a phrosiectau diwylliannol, a hyrwyddwch hwynt i gynorthwyo ymwybyddiaeth ac amlygrwydd effaith ehangach diwylliant yn lleol i drwytho dylunio a chyflwyno polisi gwasanaethau eraill, ac yn genedlaethol.

**Adeiladwch iaith a diwylliant a hanes Cymru** i mewn i raglenni sefydlu, a rhaglenni datblygu proffesiynol parhaus.

**Datblygwch a chyflwynwch gynnwys Cymraeg** ar gyfer podlediadau, sain, realiti rhithwir a realiti estynedig i'w ddatblygu a'i gyflwyno i sicrhau nad yw'r iaith yn cael ei gadael ar ôl yn y datblygiadau technolegol diweddaraf.

### Adolygwch ofynion

**biwrocraidd** eich cynlluniau rhoi grantiau bach, i sicrhau nad ydynt yn gweithredu fel rhwystr, a'u bod yn gymesur â'r swm y gofynnwyd amdano.

**Sicrhewch eich bod yn darparu gofod** ar gyfer pobl broffesiynol greadigol, megis siopau gwag, desgiau y gellir eu rhannu, a sefydlu polisi i gynorthwyo hyn.

Sicrhewch fod eich dogfennau tendro'n briodol ar gyfer gwaith sy'n cael ei gaffael, er mwyn caniatáu gofod ac amser ar gyfer hyblygrwydd a meddwl yn greadigol.

e.e. Partneriaeth [Addo / Cyngor Dinas Abertawe](#) i edrych yn wahanol ar brosesau tendro ar gyfer gwaith creadigol.

## Bod Yn Fwy Anturus

**Ystyriwch** sut y gellir gwireddu manau creadigol amlswyddogaethol (yn cynnwys manau gwyrdd) drwy'r broses gynllunio ar gyfer datblygiadau newydd ac ailddatblygu neu adfer manau sy'n bodoli eisoes.

e.e. <http://www.arts.wales/arts-in-wales/ideas-people-places/confluence>

e.e Creu manau yng nghanol y dref ar gyfer datblygu sgiliau a chreadigrwydd yn Llandudno <https://youtu.be/UADAGoeNepA>

**Ystyriwch** sut y gall dysgu diwylliannol amlswyddogaethol a chanolfannau manwerthu gael eu datblygu fel rhan o gynlluniau adfer canol trefi a dinasoedd.

e.e. Gweithiodd **Cyngor Wrecsam** gyda Chyngor y Celfyddydau i ailddatblygu'r hen farchnad dan do yn ganolfan ddiwylliannol tra'n cadw stondinau'r farchnad a datblygu mwy o weithgaredd cymunedol a phêl droed.

<https://www.typawb.cymru/>

### Partneriaethau

**Datblygwch** waith gydag unigolion creadigol/ sefydliadau creadigol i hybu gwaith presennol mewn dull creadigol ac ymgysylltwch â rhanddeiliad gwahanol, i sicrhau bod dulliau newydd o hybu gwasanaethau a chynnyrch yn cael eu datblygu mewn dull creadigol i gysylltu mewn ffyrdd gwahanol â chymunedau ac unigolion.

## Bod Yn Fwy Anturus

**Byddwch yn rhan o gydweithredu arloesol** rhwng y sector diwylliannol a sefydliadau eraill i ennill gwell dealltwriaeth o weithgaredd diwylliannol ac effaith, rhannu arbenigedd, cynorthwyo meddwl creadigol ac ysbrydoli dulliau newydd o weithio, er enghraifft drwy gyfnewid staff, secondiadau.

e.e. [Amgueddfa Manceinion](#) drwy bartneriaeth yn rhannu sgiliau gyda'r **Bwrdd Iechyd**.

**Macsimeiddiwch fannau** ar gyfer gweithgaredd diwylliannol a thrwy gyfrwng y Gymraeg drwy bartneriaethau a sefydliadau diwylliannol eraill a'r trydydd sector perthnasol.

### Sgiliau

**Darparwch gyfleoedd** gwirfoddoli mewn lleoliadau diwylliannol gyda gwirfoddolwyr yn gweithio ochr yn ochr â staff nid yn eu lle, a threfnwch fecanweithiau ar gyfer cynorthwyo hyn.

**Adnabyddwch a chynorthwywch** entrepreneuriaid uchelgeisiol diwylliannol gan drefnu cyfleoedd iddynt ddysgu bod yn arweinwyr.

e.e. [Llysgenhadon Chwaraeon Cymru / MonSport Playmaker](#) – sy'n cynorthwyo pobl ifanc i wireddu eu potensial drwy weithgareddau diwylliannol.

e.e. [Rhaglen Canolfan yr Aifft, Abertawe i wirfoddolwyr ifanc - meithrin curaduron y dyfodol.](#)

**Datblygwch fecanweithiau** i gynorthwyo pobl ifanc â thalent i gyrchu offer addas, megis offerynnau cerdd, pecynnau chwaraeon a.y.y.b.

**Pan fyddwch yn gweithio gydag** ysgolion a phobl ifanc, anogwch addysgu pynciau diwylliannol ar draws cwricwlwm yr ysgol uwchradd a rhowch i bobl ifanc gyfleoedd i ddysgu am, a phrofi diwylliant Cymraeg/Cymreig, iaith a threftadaeth.

**Darparwch gyfleoedd** i gyflogi pobl ifanc â thalentau diwylliannol (megis cerddorion mewn digwyddiadau/hyfforddwy'r chwaraeon lleol/hyfforddwy'r blogio/creu fideos ar ffurf blog am wasanaethau/dehonglwyr mewn safleoedd treftadaeth a.y.y.b)

e.e. <http://getthechance.wales/>

ee

ee

ee

ee

## Bod Yn Fwy Anturus

**Gosodwch fodelau prentisiaeth** yn eu lle i gynorthwyo pobl broffesiynol uchelgeisiol i ddysgu eu masnach diwylliannol mewn amgylchedd proffesiynol.

e.e. [prentisiaethau'r BBC](#) - cynorthwyo pobl i ddysgu eu crefft mewn amgylchedd diwylliannol proffesiynol.

**Cydnabyddwch bwysigrwydd** creadigrwydd ar gyfer sgiliau yn y dyfodol a datblygwch gyfleoedd dysgu ar draws y sector diwylliannol.

**Datblygwch sgiliau pobl broffesiynol ddiwylliannol yn y Gymraeg** er mwyn meithrin datblygiad y Gymraeg a'r gallu i weithio'n ddwyieithog mewn lleoliadau cymunedol.

**Datblygwch ddulliau newydd** o gynorthwyo pobl i gyrchu'r proffesiynau diwylliannol ar wahanol gyfnodau o'u bywydau, gan nodi a lliniaru'r rhwystrau sy'n bodoli sy'n atal pobl rhag dilyn llwybrau traddodiadol i gyflogaeth a chydabod nad yw pawb yn dysgu yn yr un ffordd. Dylai hyn gynnwys cynorthwyo unigolion i ddysgu am fusnes, cyllidebau, cyfathrebu, marchnata a.y.y.b. yn ogystal â datblygu eu harfer diwylliannol.

e.e. [Rhaglen Uchelgais Ddiwylliannol](#) - cydweithwch i greu amrywiaeth a gwella sgiliau diwylliannol y gweithlu.

e.e. **Rhaglen fentora anffurfiol Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW** - rhannu sgiliau'n digwydd yn anffurfiol, proses a ddatblygodd yn naturiol rhwng dau unigolyn a gydnabu bod yna fwllch yn eu gwybodaeth y gellid ei lenwi gan y llall.

## Bod Yn Fwy Anturus

### Llesiant staff

#### Hyrwyddwch yr ystod o

wahanol gyfleoedd diwylliannol sydd ar gael yn yr ardal leol i staff tu allan i'r gwaith (yn cynnwys corau, mannau gwyrdd, campfeydd, safleoedd treftadaeth, theatrau, digwyddiadau, sinema).

#### Anogwch eich staff i ddefnyddio

cyfleusterau diwylliannol lleol (megis llyfrgelloedd, amgueddfeydd, orielau, parciau) yn ystod yr awr ginio.

#### Darparwch gyfleoedd i

staff gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn cynnwys clybiau rhedeg, corau, grwpiau darllen, ymweliadau ag amgueddfeydd, cerdded mewn amgylcheddau naturiol a.y.y.b.

## Perchnogi'r Uchelgais

### Cydweithredu neu weithredu cenedlaethol

**Cydnabyddwch rôl** ac effaith posibl diwylliant yn ei gyd-destun ehangach ar draws pob Gwasanaeth Cyhoeddus a chymunedau.

**Gosodwch yn eu lle ymrwymadau ariannu hirdymor** i gynorthwyo datblygiad diwylliannol a'r diwydiannau creadigol ledled Cymru.

**Crewch bartneriaethau arloesol** i ganiatáu i Gymru hawlio ei lle ar lwyfannau diwylliannol rhyngwladol a chael cydnabyddiaeth fel man lle gwelir arfer diwylliannol ar ei orau.

**Cydnabyddwch a gwerthfawrogwch swyddi diwylliannol** fel proffesiwn sy'n gydradd ag eraill, megis gwyddoniaeth, technoleg a pheirianeg.

**Sicrhewch fod y cwricwlwm cenedlaethol** yn cydnabod a gwerthfawrogi rôl diwylliant yn y system addysg, gan wneud cyfleoedd i bobl ifanc yn rhan hanfodol o'u datblygiad sgiliau ar gyfer y dyfodol yn ogystal â rhoi'r sgiliau i'r rhai â diddordeb ar gyfer gyrfa yn y proffesiynau creadigol a diwylliannol.

**Datblygwch lwybrau clir,** cynaliadwy i bobl i gyrchu a llwyddo yn y proffesiynau diwylliannol.

### Gweithredu Sefydliadol

#### Partneriaethau

**Manteisiwch ar bobl broffesiynol ddiwylliannol pan** yn datblygu prosiectau newydd graddfa fawr, adeiladau ac ailddatblygiadau.

e.e. Mae [Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru](#) wedi disgrifio Parc Gwyddoniaeth Menai fel prosiect 'enghreifftiol'.



## Perchnogi'r Uchelgais

### Datblygwch a defnyddiwch offerynnau creadigol i

gynorthwyo pobl i ddeall ac ymgysylltu â materion strategol allweddol, gan ganiatáu iddynt gysylltu â chi a chynorthwyo/herio eich penderfyniadau mewn ffyrdd newydd.

e.e. [Breaking Barriers Digital Storytelling](#)

### Ymgysylltwch â sefydliadau, adrannau ac

unigolion diwylliannol i gynllunio newidiadau hirdymor yn greadigol gyda'n gilydd, er enghraifft drwy fabwysiadu ymagweddau tuag at weledigaethau neu gynlluniau deng-mlynedd a chynorthwyo dulliau arloesol o weithio.

### Sgiliau

**Cyflawnwch** fuddsoddi mewn statws Gwirfoddol.

### Sefydlwch gynlluniau mentora busnes

i gynorthwyo pobl broffesiynol ddiwylliannol a sefydliadau i ddatblygu modelau busnes mwy cydnerth a chynaliadwy. Un enghraifft yw prosiect peilot Cyngor y Celfyddydau ar raglen gydnerthedd.

e.e. <https://arts.wales/cy/node/262>

### Llesiant staff

**Datblygwch a defnyddiwch offerynnau creadigol** i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â llesiant staff, megis drama ar gyfer rheoli stres, yoga ar gyfer ymlacio a.y.y.b.

e.e. y **prosiect celf Ready Set Grow** yn Llyfrgell yr Eglwys Newydd  
<https://twitter.com/cdflibraries/status/868127702666153985>

ee

ee

CARTREF

## Enghreifftiau a ffynonellau eraill



**Canolfan Bedwyr** – yn cynorthwyo pobl i ddefnyddio/ dysgu Cymraeg mewn amryw ffyrdd.



**A2 Connect** – Rhwydwaith Celf mewn Addysg i ddatblygu ar y cyd sgiliau creadigol athrawon.



**Model Amgueddfeydd Tyne and Wear** – ymagwedd gydweithredol, ranbarthol tuag at gynorthwyo amgueddfeydd lleol.



**Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau** - yn ystyried sut yr ydym yn gwerthfawrogi diwylliant.



**Gemau'r Gymanwlad / Cymru yn Fenis** – yn cydweithredu i sicrhau bod Cymru'n medru hawlio lle ar lwyfannau rhyngwladol.

